



CYNLLUNIO PROSIECT MENTER >

Cynllun y sesiwn

PROSIECTAU MENTER



Prince's Trust

START
SOMETHING

CIPOLWGW >

Y sesiwn yma ydy'r ail yn yr uned 'Cyflawni Prosiect Menter'. Yn y sesiwn yma, bydd y dysgwyr yn dechrau datblygu syniadau ar gyfer eu prosiect menter eu hunain. Byddan nhw'n pwysu a mesur cryfderau a gwendidau gwahanol syniadau menter, ac yn cynllunio sut byddan nhw'n cyflawni eu prosiect.



CYSYLLTIADAU A'R CWRICWLWM

- ✓ Menter (Cymru)



LLN OPPORTUNITIES

- ✓ Pennu dyddiadau cau a threfnu amser
- ✓ Cyfrifo costau'r prosiect menter



MATERIALS

- ✓ Taflen waith Canllawiau cynllunio
- ✓ Taflen waith Cynllun prosiect menter
- ✓ Cyflwyniad Cynllunio prosiect menter
- ✓ Mynediad i'r rhyngwrwyd (o ddewis)



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cyflawni Prosiect Menter - Deiliant Dysgu: Gallu cynllunio ar gyfer prosiect menter

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Enwi cryfderau a gwendidau gwahanol syniadau am fentrau
- ✓ Deall a chynllunio ar gyfer yr hyn sydd ei angen i gyflawni prosiect menter

GWEITHGAREDDAU >

| GWEITHGAREDD | AMSER | TUDALEN |
|--|-------------|-----------|
| <u>Cyflwyniad</u> | 10 munud | <u>03</u> |
| <u>Eich prosiect menter</u> | 20 munud | <u>05</u> |
| <u>Dewisol: Ymchwilio i'r farchnad</u> | Yn dibynnu | <u>07</u> |
| <u>Tasgau ac adnoddau</u> | 20-25 munud | <u>09</u> |
| <u>Prisio</u> | 15-20 munud | <u>11</u> |
| <u>Dirwyn i ben</u> | 5-10 munud | <u>13</u> |



CYFLWYNIAD



AMSER

10 munud



DEUNYDDIAU

✓ Papur a beiros

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Dechreuwch drwy holi i weld beth ydy dealltwriaeth y dysgwyr yn dilyn y sesiwn flaenorol. Ydyn nhw'n gallu cofio beth mae entrepreneur a menter yn ei olygu?

Menter: Yn ei hanfod, busnes

Entrepreneur: Rhywun sy'n rhedeg busnes. Fel arfer mae'n berson sydd â'r sgiliau, yr angerdd a'r gallu i gymryd risgiau er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus


2. Atgoffwch y dysgwyr fod llawer o fentrau'n bodoli sy'n gwerthu gwahanol gynnyrch neu wasanaethau. Gallech ofyn a ydyn nhw'n cofio pa fenter roedden nhw wedi ymchwilio iddi yn y sesiwn flaenorol, a pha gynnyrch neu wasanaeth mae'n ei gynnig.
3. Dywedwch wrth y dysgwyr fod dillad chwaraeon a nwyddau chwaraeon yn enghraifft o ddiwydiant. Fel un grŵp mawr, ewch ati i greu map meddwl o'r holl wahanol eitemau y byddai menter dillad chwaraeon neu nwyddau chwaraeon yn gallu eu gwerthu. Cofnodwch eu syniadau ar fwrdd gwyn/siart troi.
Atebion posibl:
 - Treinyrs
 - Racedi tennis
 - Matiau ioga
 - Dillad nofio
 - Peli pêl-droed
4. Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau bach neu'n barau a rhoi un o'r diwydiannau isod iddyn nhw, neu unrhyw rai eraill y gallwch chi feddwl amdany'n nhw. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n creu map meddwl tebyg o'r holl gynnyrch neu wasanaethau maen nhw'n gallu meddwl amdany'n nhw y gallai menter eu gwerthu yn y diwydiant hwnnw.
Diwydiannau:
 - Bwyd a diod – er enghraifft prydau wedi'u rhewi, arlwyo, bwyd tecawê, sudd ffres, prydau cartref
 - Nwyddau'r cartref – er enghraifft dillad gwely, carthenni, gwydrau, canwyllbrennau, soffas, gwelyau
 - Technoleg – er enghraifft ffonau clyfar, gwasanaeth rhyngwyd, gemau ar-lein, oergelloedd clyfar



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

- Adloniant – er enghraifft gwasanaethau ffrydio ffilmiau, sioeau theatr, gigs cerddoriaeth
 - Anifeiliaid anwes – er enghraifft gofal milfeddyg, ymolchi a thwtio anifeiliaid anwes, coleri, gwelyau
5. Ar ôl ychydig funudau, anogwch y grwpiau i rannu â phawb arall y gwahanol syniadau ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth maen nhw wedi meddwl amdanynt ar gyfer eu diwydiant.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

EICH PROSIECT MENTER

Os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, byddai'r gweithgaredd yma'n gallu helpu i ddangos eu dealltwriaeth o'r meini prawf asesu sydd wedi'u rhestru yn yr adran cyfleoedd i gael cymwysterau, a welir isod. Cofiwch, os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel Mynediad 3/Lefel 3 SCQF, dim ond cryfderau a gwendidau un syniad am brosiect menter y mae angen iddyn nhw eu rhestru.



AMSER

20 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Canllawiau cynllunio
- ✓ Taflen waith Cynllun prosiect menter
- ✓ Cyflwyniad Cynllunio prosiect menter



CYFLEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cryfderau a gwendidau syniad(au) posibl ar gyfer prosiect menter

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n meddwl am eu syniadau menter eu hunain, ac y bydd yn rhaid iddyn nhw benderfynu pa ddiwydiant maen nhw eisiau i'w menter fod yn rhan ohono. Eglurwch ei bod yn rhaid i'r syniadau fod yn realistig, ac yn rhywbeth maen nhw'n gallu ei gynnig neu ei werthu eu hunain.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol trafod rhywfaint o syniadau am brosiectau menter y mae clybiau Achieve wedi'u gwneud yn y gorffennol (mae'r rhain hefyd wedi'u rhestru yn y cyflwyniad 'Cynllunio prosiect menter'):

- Pobi a gwerthu cacennau
- Golchi ceir
- Gwneud a gwerthu cardiau cyfarch
- Crosio pabïau ar gyfer Dydd y Cofio
- Gwerthu cynnyrch o randir yn siop fferm eu lleoliad
- Darparu cynnyrch i fanc bwyd cymunedol

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith nad ydy'r holl syniadau menter yn gorfod bod yn rhai sy'n gwneud arian. Fel yr enghraifft olaf, mae'r mentrau'n gallu bod yn rhai cymdeithasol. Mae menter gymdeithasol yn fusnes sy'n helpu achos elusennol drwy ei gynnyrch neu wasanaeth, neu'n fusnes sy'n cyfrannu ei elw at achos da.

2. Yn eu grwpiau prosiect (neu'n unigol os ydyn nhw'n gwneud y prosiect ar eu pen eu hunain), anogwch y dysgwyr i feddwl am 2-3 syniad am brosiectau menter y bydden nhw'n awyddus i'w cyflawni.

Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'r daflen waith 'Canllawiau cynllunio' i'w helpu i feddwl am ychydig o syniadau.

3. Ar ôl i'r dysgwyr feddwl am eu syniadau, eglurwch fod angen iddyn nhw ddewis a dethol un syniad a fydd yn brosiect menter iddyn nhw. Dywedwch wrth y dysgwyr fod ysgrifennu cryfderau a gwendidau pob syniad yn ffordd dda o'u helpu i benderfynu.



Prince's Trust

START
SOMETHING

Cyn i'r dysgwyr wneud hyn, byddai'n syniad da dangos enghraifft iddyn nhw. Dewiswch syniad am brosiect neu meddyliwch am un eich hun, ac fel grŵp meddyliwch am y cryfderau a'r gwendidau – er enghraifft, efallai mai cryfderau'r prosiect ydy ei fod yn helpu achos da neu'n gynnyrch/gwasanaeth ffasiynol neu berthnasol, ac efallai mai ei wendid ydy y bydd yn rhy ddrud neu anodd i'w greu neu i ddod o hyd i'r cynnyrch.

4. Pan fyddwch chi'n siŵr bod y dysgwyr yn deall y gwahanol gryfderau a gwendidau posibl, dylech eu hannog i lenwi'r adran berthnasol ar y daflen waith 'Cynllun prosiect menter'. Ar ôl 5-10 munud, gofynnwch iddyn nhw adrodd yn ôl ar rai o'r cryfderau a'r gwendidau maen nhw wedi'u rhestru.
5. Dywedwch wrth y dysgwyr y bydd yn rhaid iddyn nhw benderfynu'n awr beth fydd eu prosiect menter, gan ddefnyddio'r cryfderau a'r gwendidau. Ewch o amgylch y grwpiau a gwneud yn siŵr nad oes neb yn dewis syniad am brosiect anymarferol. Ar ôl gwneud yn siŵr ei bod hi'n bosibl cyflawni'r syniadau i gyd, gofynnwch iddyn nhw gofnodi eu prosiect menter ar y daflen waith 'Cynllun prosiect menter'.



DEWISOL: YMCHWILIO I'R FARCHNAD

Mae'r gweithgaredd yma wedi cael ei gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF y cymhwyster. Ond, os ydych chi'n meddwl y byddai o fudd a/neu o ddiddordeb i'ch dysgwyr chi, gallan nhw hefyd wneud y dasg yma.



AMSER

Yn dibynnu ar sut mae'r gwaith ymchwil yn cael ei wneud



DEUNYDDIAU

- ✓ Mynediad i'r rhyngwyd (o ddewis)
- ✓ Taflen waith Cynllun prosiect menter
- ✓ Cyflwyniad Cynllunio prosiect menter



CYFLEOEDI I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cyfrannu at y broses o wneud ymchwil i'r farchnad ar gyfer y prosiect menter a ddewiswyd

GWEITHGAREDD

1. Dywedwch wrth y dysgwyr fod ymchwilio i'r farchnad yn un peth mae entrepreneuriaid yn ei wneud cyn dechrau eu menter.

Bydd ymchwil i'r farchnad yn dangos i chi:

- Pa fentrau tebyg sy'n bodoli'n barod
- Pwy ydy'r gynulleidfa/cwsmeriaid targed ar gyfer eich cynnyrch/gwasanaeth, a beth maen nhw ei eisiau a'i angen
- Pris: faint mae mentrau tebyg yn ei godi am y cynnyrch/gwasanaeth?
- Ble: ble maen nhw'n gwerthu'r cynnyrch/gwasanaeth – er enghraifft lleoliadau, ond hefyd a ydyn nhw'n gwerthu ar-lein, sut le ydy'r lleoliadau ffisegol, ac ati.
- Cynnyrch: sut bethau ydy'r cynnyrch/gwasanaethau sy'n cael eu gwerthu gan fentrau tebyg? Beth ydy'r ansawdd? Beth ydy'r dyluniad?
- Hyrwyddo: sut mae mentrau tebyg yn hyrwyddo/marchnata eu cynnyrch/gwasanaeth?

Sylwer: mae'r wybodaeth yma hefyd wedi'i nodi yn y cyflwyniad 'Cynllunio prosiect menter' i chi allu dangos i'ch dysgwyr.

2. Eglurwch y bydd yn rhaid iddyn nhw ymchwilio i'r farchnad cyn dechrau eu prosiect menter. Gofynnwch i'r dysgwyr pam maen nhw'n meddwl ei bod yn bwysig gwneud hyn. Dylech wneud yn siŵr eu bod yn deall y bydd ymchwilio i'r farchnad yn eu helpu i sicrhau bod eu menter yn un lwyddiannus – ee, eu bod yn gwerthu am y pris iawn, eu bod yn targedu'r cwsmeriaid iawn, ac ati.
3. Cyfeiriwch y dysgwyr yn ôl at eu taflen waith 'Cynllun prosiect menter', a dweud y byddan nhw'n nodi eu canfyddiadau yn yr adran 'ymchwilio i'r farchnad'.

Bydd angen iddyn nhw ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer gwahanol categorïau. Os ydyn nhw'n gweithio mewn grwpiau, gallai pob aelod wneud ac ymchwilio i gategori gwahanol.



Byddai'n well pe bai modd i'r dysgwyr fynd ar y rhyngwrwd i gyflawni'r dasg yma. Ond os nad ydy hynny'n bosibl, gallent ddefnyddio eu gwybodaeth am fentrau lleol yn yr un diwydiant neu, gyda'r caniatâd cywir, gallent archwilio eu hardal leol, ymweld â busnesau lleol, creu holiaduron, siarad â chwsmeriaid posibl, ac ati.

4. Ar ôl rhoi digon o amser i'r dysgwyr ymchwilio i'r farchnad, dylech eu hannog i adrodd yn ôl ar eu canfyddiadau i weddill eu grŵp neu i'r grŵp ehangach. Dylent drafod a chofnodi sut bydd eu canfyddiadau'n pennu beth maen nhw'n ei wneud yn eu prosiect menter – er enghraifft, wnaethon nhw ddarganfod mai'r lle gorau i werthu eu cynnyrch/gwasanaeth ydy mewn ardal benodol o'r dref? Ydyn nhw'n gwybod ar ba bris i werthu eu cynnyrch/gwasanaeth, gan fod y rhan fwyaf o fentrau tebyg i gyd yn gwerthu ar brisiau tebyg?



TASGAU AC ADNODDAU >

Os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, byddai'r gweithgaredd yma'n gallu cael ei ddefnyddio i helpu i ddangos eu dealltwriaeth. Os ydy'r dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF, bydd yn rhaid iddyn nhw greu llinell amser gyda'r tasgau a'r adnoddau wedi'u rhestru, yn hytrach na dim ond rhestr.



AMSER

20-25 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Cynllun prosiect menter
- ✓ Cyflwyniad Cynllunio prosiect menter



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Y tasgau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y prosiect menter a ddewisir

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch fod nifer o gamau i'w cymryd cyn dechrau'r prosiect menter. Mae hyn yn cynnwys cael gafael ar yr adnoddau angenrheidiol a chyflawni tasgau penodol – ee, hyrwyddo eu menter ymysg cwsmeriaid targed (hynny ydy, marchnata), dod o hyd i leoliad i werthu eu cynnyrch neu wasanaeth, ac ati.

Dangoswch y sleidiau yn y cyflwyniad 'Cynllunio prosiect menter' i'r dysgwyr, sy'n dangos enghraifft o syniad am brosiect menter a beth oedd angen iddyn nhw ei wneud a'i gael cyn dechrau arni.

2. Yn gyntaf, mae angen i'r dysgwyr gytuno ar ddau beth:
 - Beth ydy nodau eu prosiect menter?
 - Pa dasgau y mae angen eu gwneud?

Ar ôl cytuno ar hyn, dylent restru'r tasgau yn yr adran berthnasol ar y daflen waith 'Cynllun prosiect menter'. Efallai y byddai'n ddefnyddiol os bydden nhw'n nodi dyddiad sy'n dangos erbyn pryd mae angen gwneud y dasg. Mae angen i'r dysgwyr sy'n gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys dyddiadau.

Dylai'r grwpiau hefyd neilltuo tasgau i wahanol aelodau. Atgoffwch y dysgwyr y dylent geisio eu paru â'u diddordebau a/neu eu sgiliau, ond does dim ots os nad yw'n gweithio'n union felly, gan ei fod yn gyfle i bawb ddatblygu sgiliau newydd!

3. Yn ail, gan ddefnyddio'r adran berthnasol ar y daflen waith 'Cynllun prosiect menter', dylai'r dysgwyr drafod a chofnodi pa adnoddau sydd eu hangen. I'w helpu i wneud hyn, dylent edrych ar y tasgau maen nhw newydd eu hysgrifennu, a thrafod pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni pob tasg (mae enghraifft i'w gweld yn y tabl ar y daflen waith). Ar y cam yma, efallai y byddai'n ddefnyddiol cofnodi:
 - Faint mae pob adnodd yn ei gostio (yn y golofn adnoddau)
 - Ble maen nhw'n gallu cael gafael ar bob adnodd – gan gynnwys yr eitemau y byddan nhw'n gallu eu gwneud eu hunain o bosibl, neu sydd ganddyn nhw'n barod (yn y golofn tasgau)



- Pwy sy'n gyfrifol am gael pa adnodd (yn y golofn tasgau)
- A oes unrhyw un a fyddai'n gallu eu helpu i gael yr adnoddau – ee, rhywun o'r gymuned leol neu berson busnes lleol (yn y golofn tasgau)

Os ydy'r dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel 2/Lefel 5 SCQF, mae angen iddyn nhw gynnwys pryd maen nhw'n bwriadu cael yr adnoddau.

4. Edrychwch ar y tasgau a'r adnoddau y mae pob grŵp wedi'u hysgrifennu, gan sicrhau nad oes dim byd ar goll, ac nad oes unrhyw beth afrealistig nac anymarferol wedi'i gynnwys. Efallai y bydd yn rhaid i chi gadarnhau hyn eto rhwng nawr a'r prosiect i wneud yn siŵr bod pob grŵp ar y trywydd iawn.



PRISIO

Os ydy'ch dysgwyr yn gweithio tuag at y cymhwyster, byddai'r gweithgaredd yma'n gallu cael ei ddefnyddio i helpu i ddangos eu dealltwriaeth. Os ydy'r dysgwyr yn gweithio tuag at Lefel Mynediad 3/Lefel 3 SCQF, dydy'r dasg yma ddim yn orfodol, ond gallai eu helpu i baratoi ar gyfer eu prosiect



AMSER

15-20 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Cynllun prosiect menter



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Faint y byddwch chi'n ei godi am y cynnyrch neu'r gwasanaethau

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Eglurwch i'r dysgwyr mai un o brif nodau menter ydy gwneud elw (arian sydd dros ben ar ôl talu'r holl gostau). Atgoffwch y dysgwyr nad ydy mentrau cymdeithasol o reidrwydd yn ceisio gwneud elw, ond os ydyn nhw'n gwneud hynny, maen nhw'n ei roi i achos elusenol.
2. Dywedwch wrth y dysgwyr mai un o'r pethau allweddol y mae angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwneud elw ydy sicrhau eu bod yn prisio eu cynnyrch neu eu gwasanaeth yn gywir. Os ydy'r pris yn rhy isel ni fydd yn talu am gostau'r prosiect, ac os ydy'r pris yn rhy uchel gallai fod yn rhy ddrud i gwsmeriaid posibl.

3. Eglurwch mai'r cam cyntaf i bennu pris eu cynnyrch neu wasanaeth ydy edrych ar y rhestr o adnoddau a wnaethant yn y gweithgaredd diwethaf. Dylent edrych i weld faint o bob eitem sydd ei hangen arnynt, a faint maen nhw'n ei gostio. Bydd hyn yn eu helpu i gyfrifo faint o arian sydd ei angen arnynt nhw i dalu eu costau.

Efallai y bydd angen i chi helpu'r dysgwyr gyda'r gwaith cyfrifo ar y cam yma. Er enghraifft, y dylid lluosio cost eitemau unigol â nifer yr eitemau y mae eu hangen.

Dylech atgoffa'r dysgwyr i chwilio am ffyrdd posibl o arbed arian drwy gael rhywun i helpu gyda'u prosiect – ee, rhoddion gan fusnes lleol, defnyddio cegin rhywun (os ydych chi'n pobi/coginio ac ati) neu gael defnyddio lleoliad am ddim.


4. Wedyn, ar sail y costau maen nhw wedi'u cyfrifo, mae angen iddyn nhw benderfynu faint y dylent ei godi. Os ydy eu prosiect yn fenter gymdeithasol ac nad oes angen elw arnynt nhw, efallai mai dim ond codi digon i dalu'r costau y byddan nhw am ei wneud. Fodd bynnag, efallai y byddwch chi'n dal am eu hannog i godi ychydig mwy, ac wedyn rhoi'r elw i achos da.



Mae llawer o ffyrdd o benderfynu ar y pris iawn unwaith y byddan nhw'n gwybod beth ydy'r costau, ond ar gyfer y prosiect yma, efallai y byddai'n syniad da i bob grŵp benderfynu ar ffigur y bydden nhw'n hoffi ei gyrraedd ac wedyn cyfrifo ar faint y byddai'n rhaid prasio eu cynnyrch/gwasanaeth (heb gynnwys y gost) er mwyn cyrraedd y ffigur hwnnw.

Bydd angen iddyn nhw hefyd sicrhau bod y pris yn realistig, ac mai dyna fydd cwsmeriaid yn disgwyl ei dalu ar sail yr hyn y mae busnesau'n ei godi am gynnyrch tebyg (bydd yr ymchwil i'r farchnad a wnaed yn gynharach yn y sesiwn yn help gyda hyn).

5. Ar ôl iddyn nhw benderfynu ar y pris, ac i chi wneud yn siŵr ei fod yn rhesymol ac yn realistig, dylent gofnodi hyn ar eu taflen waith 'Cynllun prosiect menter'. Does dim angen i ddysgwyr Lefel Mynediad 3/Lefel 3 SCQF gofnodi hyn, a dylai dysgwyr Lefel 2/Lefel 5 SCQF egluro pam eu bod wedi dewis y pris penodol hwnnw.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

DIRWYN I BEN >



AMSER

5-10 munud

CAMAU'R GWETHGAREDD >

1. Rhowch amser i'r dysgwyr drafod ac ystyried beth ydy'r camau cyntaf er mwyn dechrau paratoi ar gyfer eu prosiect. Gwnewch yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau ac erbyn pryd mae angen gwneud tasgau penodol.
2. Cyn gorffen y sesiwn, gwnewch yn siŵr bod pob dysgwr/grŵp yn barod i ddechrau paratoi ar gyfer eu prosiect – ee, mae ganddyn nhw dasgau clir, maen nhw'n gwybod pa adnoddau i'w cael, ac ati. Bydd angen i chi fonitro'r gwaith paratoi yma drwy gydol y broses, er mwyn sicrhau bod y prosiectau ar y trywydd iawn.
3. Gallech ddod â'r sesiwn i ben drwy ofyn i'r dysgwyr pa ran o'r prosiect maen nhw'n teimlo fwyaf cyffrous yn ei chylch, beth maen nhw'n meddwl fydd yn heriol, a sut gallent oresgyn hynny.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**